WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Dyddiad cyflwyno: 27 Medi 2017

Tir yn Iard Storio Marina Abertawe (Gorllewin)

Ysgrifennaf i ymateb i'ch cais am wybodaeth, dyddiedig 30 Awst 2017, i ofyn am wybodaeth ynghylch y Tir yn Iard Storio Marina Abertawe (Gorllewin).

Er mwyn hwylustod rwyf wedi copïo eich cwestiwn isod a nodi ein hateb cyfatebol.

A wnewch chi ddarparu copïau o'r holl ac unrhyw adroddiadau a/neu ddogfennau yr ydych yn eu cadw sy'n ymwneud â phrisio tir yn Iard Storio Marina Abertawe (Gorllewin) a adwaenir fel 'Celtic Marine', ac sy'n ymwneud â'r broses o werthu/prydlesu'r tir hwn?

Rydym ni'n cadw copi o'r adroddiad a baratowyd gan yr archwilydd a benodwyd, gyda chymorth PricewaterhouseCoopers, o ran negodi prydles Celtic Marine. Mae'r adroddiad hwn ar gael i'r cyhoedd ar wefan Cyngor Dinas a Sir Abertawe: https://democracy.swansea.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=123&MId=4446&Ver=4&LLL=-1 Felly o ganlyniad mae'r wybodaeth hon yn weddol hygyrch ichi drwy ffyrdd eraill ac wedi'i heithrio o gael ei datgelu o dan adran 21 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Nid ydym yn cadw gwybodaeth arall a gofnodwyd sy'n ymwneud â phrisio'r tir ym Marina Abertawe a'r broses o werthu/prydlesu'r tir hwnnw. Fel y cyfeiriwyd ato uchod, cafodd yr archwilydd a benodwyd gymorth gan PricewaterhouseCoopers wrth baratoi'r adroddiad ar negodi prydles Celtic Marine ac efallai eu bod yn cadw rhywfaint o wybodaeth ar ran yr archwilydd a benodwyd o ran paratoi'r adroddiad hwnnw. Nid yw'r swydd archwilydd a benodwyd yn bodoli mwyach oherwydd Deddf Archwilio Cyhoeddus Cymru 2013, oherwydd o dan y Ddeddf honno daeth Archwilydd Cyffredinol Cymru yn archwilydd cyrff llywodraeth leol yng Nghymru. Nid oedd yr archwilydd a benodwyd yn awdurdod cyhoeddus o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOIA), ac felly, nid oes gennych hawl i gael gafael ar wybodaeth a gafodd ei gadw gan, neu ar ran yr archwilydd a benodwyd.

Rydym ni'n credu efallai y byddai o gymorth ichi petaem ni'n egluro os digwydd bod gwybodaeth arall a gofnodwyd, megis sylwadau neu gyngor gan Gyfreithwyr neu briswyr Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig wedi eu cadw gan, neu ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru fe fyddwn ni'n ystyried yn ofalus gweithredu esemptiadau perthnasol o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ar gyfer y wybodaeth honno, yn cynnwys yr esemptiad yn s42 sy'n ymwneud â braint broffesiynol gyfreithiol ac s33 o ran niweidio swyddogaethau archwilio.

Os hoffech gwyno am y modd yr ymdriniwyd â'ch cais, ysgrifennwch at Martin Peters, Rheolwr Moeseg a'r Gyfraith, drwy e-bost: martin.peters@audit.wales neu drwy lythyr i 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ.

Mae'n rhaid i mi hefyd eich cyfeirio at adran 50 Deddf Rhyddid Gwybodaeth. O dan hon cewch wneud cais i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad ynghylch pa un a ymdriniwyd â'ch cais yn unol â'r ddeddf ai peidio. Dyma fanylion cyswllt y Comisiynydd Gwybodaeth:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire SK9 5AF
e-bost : casework@ico.gsi.gov.uk
Ffôn: 01625 545745
Ffacs: 01625 524510

Nodwch er hynny y byddai'r Comisiynydd Gwybodaeth fel arfer yn disgwyl y byddech chi wedi defnyddio ein gweithdrefnau cwynion mewnol yn drylwyr cyn iddo ymdrin â chais o'r fath. Ceir rhagor o gyngor ar wefan y Comisiynydd Gwybodaeth: https://ico.org.uk/about-the-ico/other-languages/welsh/

Os oes gennych unrhyw gwestiwn, cysylltwch â mi yn ddi-oed.

Yn gywir